# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 13eg o Hydref 2020 ar System Zoom am 7.30 yh

**Presennol:**
Y Cynghorwyr Gerallt Davies (Cadair), Wyn Evans, Carys Morgan, Ruby Williams ac Eiddwen Merritt.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts, Wyn Jones, Jocelyn Andrew a Barry Owen.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Medi a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**
Esboniodd y clerc ei bod wedi cael gwybodaeth fod y llythyr sy'n gwahodd y cartrefi i gofrestru er mwyn cael grant i ymuno a'r bandeang wedi ei ymestyn nawr i ddiwedd Hydref.

**Mater cynllunio:**

**A200765.**

Ysgol Gynradd Llwyncelyn.

Newid defnydd o Ysgol Gynradd i Dy Llety.

Dim gwrthwynebiad.

**A200771.**

Fferm Bargoed, Llwyncelyn.

Cyfleusterau Hamdden Arfaethedig gyda parcio a thirlunio yn gysylltiedig.

Penderfynwyd i gefnogi y datblygiad.

**Unrhyw Fater Arall:**

Mynegodd y Cynghorydd Carys Morgan ei chydymdeimlad i'r Cynghorydd Jocelyn a Mr Mike Andrew yn ei colled yn ddiweddar ar golli ei mab, Kevin a diolchodd i'r clerc am drefnu i ddanfon y blodau. Mae'r ffordd rhwng Cwmsaeson a phentref Derwen Gam ac hefyd rhwng pysgodfeydd 'Nine Oaks' a phentref Derwen Gam wedi cael llifogydd sylweddol wythnos ddiwethaf gyda tua 18 o fodfeddi o ddwr roedd yn gwneud hi bron yn amhosib i yrru drwyddynt. Penderfynwyd i ofyn i'r clerc i wneud ymholiadau i'r Adran Briffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar y 17eg o Dachwedd.